# GWEITHGAREDD – GWRANDO A DEALL

## BYWGRAFFIAD/HUNAN-FYWGRAFFIAD

https://www.youtube.com/watch?v=R-ImgLAylow

Roedd Vernon Davies yn yr ysgol gyda Dylan Thomas yn yr 20au a'r 30au. Gwrandewch arno yn hel atgofion am y dyddiau hynny pan oedden nhw yn gyfoedion, cyn i Dylan Thomas ddod yn un o feirdd enwocaf yr 20ed ganrif. Ry'ch chi'n mynd i wrando'n astud yna ateb cwestiynau, gan ddibynnu ar eich cof.
Ar ôl gwrando, fe gewch 12 cwestiwn ar lafar gan yr athro, yna cewch farcio papurau eich gilydd.

(NODYN -Dylid gwrando ar y cyfweliad gyda Vernon Davies yn Gymraeg hyd at y pwynt lle mae'n dweud bod Dylan Thomas wedi mynd i Lundain wedyn.)

**CWESTIYNAU AR LAFAR:**

1. Beth oedd hoff bynciau Dylan Thomas yn yr ysgol (Saesneg a Drama)
2. Beth oedd swydd tad Dylan Thomas (Pennaeth yr Adran Saesneg)
3. Beth oedd talent fawr Dylan Thomas yn ôl Vernon Davies? (Llais mawr)
4. Beth oedd Vernon Davies yn meddwl fyddai wedi bod yn swydd dda i Dylan? (clown/comedïwr)
5. Sut fath o athro oedd tad Dylan (caredig/cefnogol/gofalgar – rhyw air tebyg)
6. Enwch ddau beth oedd tad Dylan Thomas yn eu gwisgo i'w waith (gown/cyfflincs/hances)
7. Pa brynhawn oedd bechgyn yr ysgol Ramadeg yn ei gael yn rhydd? (Mercher)
8. I ble fyddai'r bechgyn yn mynd ar eu beiciau yn eu hamser rhydd? (Oxwich/ y Mwmbwls)
9. Beth oedd yng nghefn y pier yn y Mwmbwls (sglefrolio)
10. Sawl dydd oedd rhwng oed Dylan a Vernon? (4/5 dydd)
11. Beth oedd enw'r papur newydd lle'r aeth Dylan Thomas i weithio ar ôl gadael ysgol (y *South Wales Evening Post*)
12. Pam cafodd Dylan y sac o'i swydd? (am esgus mynd i angladd a chyhoeddi stori anghywir)

Dychmygwch eich bod chi yn cael cyfweliad yn eich 90'au fel Vernon Davies ac yn edrych 'nôl ar ddyddiau ysgol. Ysgrifennwch bwt amdanoch chi eich hunan a ffrind i chi gan ddisgrifio sut rai oeddech chi yn yr ysgol. Cofiwch sôn am sut roeddech chi'n nabod eich gilydd, beth fyddech chi'n ei wneud, beth oedd eich diddordebau a'ch campau, sut olwg oedd arnoch chi...gan gofio bod yn onest! Gallwch gynnwys cwestiynau gan yr holwr os hoffech, fel mewn cyfweliad.

Yna gallwch ei recordio a'i chwarae nôl i'r dosbarth!
**GWAITH YMESTYNNOL: Cynnal cyfweliad ag aelodau hŷn yn y gymdeithas i greu darlun o fywyd ysgol yn y 30'au. Defnyddio hyn yn sail i waith ar ganfyddiad cymdeithas o'r henoed.**